



**Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 11<sup>eg</sup> o Hydref 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.**

**Presennol:** Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Gordon Kilby (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Owen James, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Christoph Fischer  
Roger Phillips (Clerc Tref)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Robert Jones, Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

**Cof 150 / Hyd / 17 Datganiadau o Fuddiant.** Dim.

**Cof 151/ Hyd / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu**

E/36212 Newid y defnydd a wneir o wagle atig, i ddarparu llety ychwanegol mewn cartref gofal sy'n bodoli, a newid ffenestri ym Mryn y Wawr, 6, Heol Newydd.  
**Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl reoliadau adeiladu.**

E/36199 Estyniad i borth wal ochr yn 12, Heol Cilgant.  
**Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl reoliadau ar gyfer ardal gadwraeth.**

**Cof 152/ Hyd / 17 Doedd dim Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio**

**Cof 153 / Hyd / 17 Doedd dim Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio**

**Cof 154 / Hyd / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol**

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y ffitiad golau diffygiol yn y swyddfa'n cael ei amnewid. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Geraint Price. Roedd pawb o blaid.  
Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod penderfyniadau am nifer y troeon bydd y glaswellt yn cael ei dorri yn y parciau yn fater i'r Is-grŵp Trosglwyddo Asedau yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

**Cof 155 / Hyd / 17 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phrifyrdd**

Michael Young, Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, ymgynghoriad ar gais Bwrdd Dŵr Cymru i gau'r heol dros dro ar Stryd Rhosmaen ar y 7<sup>fed</sup> o Ionawr, rhwng 08.00 a 18.00 awr. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod y Cyngor yn anfon ateb yn gwrthwynebu nes y darparwyd mwy o wybodaeth, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Geraint Price.  
Holodd y Cynghorwyr os oes yna ollyngiad dŵr yna pam na fyddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn gynted ag sy'n bosib. Hefyd, byddai'n fwy cyfleus i fusnesau pe

byddai'r gwaith yn cael ei wneud ar ychydig nosweithiau, rhwng 17.00 – 22.00 awr. Roedd y Cynghorwyr yn dymuno gwybod a fyddai'r gwaith yn tarfu ar y cyflenwad dŵr ac, os felly, pa drefniadau arall fyddai'n cael eu gwneud.

#### **Cof 156 / Hyd /17 Gohebiaeth**

1. Peter Hughes Griffiths, CSG, cylchlythyr chwarterol newydd. Nodwyd.
2. Graham Tuckwood, Lleng Brydeinig Frenhinol, cais am gymorth gan y Cyngor mewn perthynas â'u prinder aelodau. Byddai'r Cyng. Colin Jenkins yn mynychu CCB y sefydliad ar ddydd Llun yr 16<sup>eg</sup>. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn gofyn i'r LIBF a allai'r Cyngor gael aelodaeth gyfetholedig, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser.
3. Nigel Davies, ynglŷn â chynlluniau i gynnal Diwrnod Agored yn y Sefydliad ar ddydd Sadwrn y 18<sup>fed</sup> o Dachwedd, gyda'r bwriad o ddenu cefnogaeth. Nodwyd.
4. Llywodraeth Cymru, ymgynghoriad ar rolau Cynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol. Byddai'r Clerc yn dosbarthu holiadur i'r Cynghorwyr, er mwyn casglu eu barnau.
5. Paul Murray, CSG, yn darparu gwybodaeth am beth o'r gwaith adferol a oedd wedi cychwyn yn y ddau barc. Nodwyd.
6. Eryl Harries, CFFI Llandeilo, yn datgan bod y Clwb yn gwrthod y gwahoddiad a estynnwyd iddynt i helpu i glirio'r cae Rygbi yn dilyn yr arddangosfa Tân Gwyllt, ac yn dweud bod y Clwb yn siomedig na chawsant eu gwahodd i helpu i barcio ceir, fel yr oeddent wedi bod yn gwneud ers sawl blwyddyn. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu i ddiolch iddynt am eu gwaith dros y blynyddoedd. Cynigodd y Cyng. Geraint Price bod y Clerc yn cysylltu â'r Clwb Rygbi i weld a fyddai rhai o'u haelodau iau yn barod i helpu gyda'r gwaith glanhau, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd yr Is-grŵp Tân Gwyllt yn gobeithio byddai cymaint o Gynghorwyr ag sy'n bosib yn gallu helpu ar nos Sadwrn y 4<sup>ydd</sup> o Dachwedd.

#### **Cof 157 / Hyd / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Daeth y cyfarfod i ben am 7.51yh.